YSGOL ABERCONWY

**Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

# Cydlynydd Canolfan Cynhwysiant (Ganolfan)

## Mae hon yn swydd lawn amser, barhaol for swydd barhaol : 37 awr yr wythnos, yn ystod tymor ysgol (+10 niwrnod).

## Dyddiad cychwyn : Mawrth 2025

**(neu cyn gynted â phosibl wedi hynny)**

## Manylion cyflog : G07



# Croeso gan y Pennaeth

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi am eich diddordeb yn swydd Cydlynydd Y Ganolfan yn Ysgol Aberconwy. Pwrpas y pecyn gwybodaeth hwn yw eich helpu i ddysgu mwy am ein hysgol ac i benderfynu ai dyma'r swydd iawn i chi.

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol sy'n rhoi dysgu a chyflawniad unigol wrth graidd popeth a wnawn. Rydym am i bob myfyriwr lwyddo; i gyflawni eu llawn botensial, paratoi at y dyfodol a datblygu'n bobl ifanc hyderus, meddylgar fel eu bod yn ein gadael yn barod am heriau byd cyffrous a chynyddol gystadleuol. Mae'r athroniaeth hon hefyd yn ymestyn i staff yr ysgol – rydym yn ceisio bod yn sefydliad dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad pob unigolyn sydd ynddo drwy hyfforddi, herio a chefnogi.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn lleoliad ysblennydd ar foryd Conwy, ac yn ymfalchïo yn ei hamgylchedd modern, sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n i safon uchel ac yn cynnig adnoddau ardderchog. Mae ethos yr ysgol wedi'i seilio ar werthoedd traddodiadol, sef parch, cyfrifoldeb ac ysbryd cymunedol, ac mae myfyrwyr yn profi'r dechnoleg a'r dulliau addysgu diweddaraf yn yr ystafell ddosbarth.

Yma yn Ysgol Aberconwy mae gennym y disgwyliadau uchaf o'n holl fyfyrwyr ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae safonau academaidd yn bwysig i ni a disgwyliwn i bob disgybl gyflawni'r gorau. Mae gennym hefyd y disgwyliadau uchaf o'n myfyrwyr o ran ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a gwisg ysgol.

Mae system fugeiliol Ysgol Aberconwy yn eang ac yn arloesol. Mae gan bob grŵp blwyddyn Fentor Arweiniol llawn amser nad yw'n addysgu. Mae'r mentoriaid hyn yn gweithio o ganolfan cyfnod allweddol ac ar gael drwy'r dydd i ymateb i bryderon disgyblion ac i ddarparu pwynt cyswllt uniongyrchol i rieni. Mae hyn, ynghyd â'n canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion ADY yn sicrhau bod pob disgybl yn teimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth yn yr ysgol.

Mae gennym raglen allgyrsiol lwyddiannus iawn sy'n cynnwys ystod lawn o weithgareddau chwaraeon yng nghyfleusterau newydd ac arloesol yr ysgol, yn ogystal â chyngherddau cerddorol a chyflwyniadau drama. Mae gan yr ysgol ei chanolfan maes ei hun yn y bryniau uwchlaw Abergwyngregyn, gyda rhaglen eang o weithgareddau awyr agored.

Rydym hefyd yn ymfalchïo yn ein traddodiad a'n hetifeddiaeth Gymreig. Mae'r ysgol yn annog defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn a thu allan i wersi, ac rydym yn datblygu ein gallu i ddarparu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno hynny.

Rydym yn ffodus iawn i gael tîm o athrawon a staff cynorthwyol ymroddedig a phroffesiynol iawn sy'n disgwyl y safonau uchaf gan eu disgyblion, ac ar yr un pryd mae systemau cadarn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar lle mae athrawon yn addysgu a dysgwyr yn dysgu.

Mae Ysgol Aberconwy yn lle gwych i weithio. Mae'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu ac yn ymroddedig i les ein dysgwyr. Mae gennym y disgwyliadau uchaf gan bawb sy'n gweithio yma ac felly rydym yn chwilio am y staff gorau i weithio gyda'n myfyrwyr. Gwyddom mai safon ein staff sy'n pennu safon ein hysgol. Os hoffech weld drosoch eich hun pam ein bod yn credu bod Ysgol Aberconwy yn lle gwych i weithio, mae croeso i chi gysylltu â ni i drefnu ymweliad.



# Ian Gerrard

# Gwybodaeth Ychwanegol am yr ysgol

Yn ystod eu hymweliad â’r ysgol ym mis Mawrth 2018, nododd ESTYN:

- Mae disgyblion yn mynegi eu syniadau a’u barn yn hyderus y tu mewn a’r tu allan i’r ystafell ddosbarth gyda’r mwyafrif yn cyfrannu’n frwdfrydig i drafodaethau dosbarth neu grŵp.
- Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf uwchlaw perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.
- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â’u targedau personol.
- Mae ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol, sy’n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr, yn llwyddiannus o ran hyrwyddo lefelau uchel o les disgyblion.
- Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion o fwlio.
- Mae disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.
- Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.
- Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan yn rhaglen werthfawr yr ysgol o weithgareddau diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys cynyrchiadau cerddorol a drama.
- Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn cyfrannu’n llwyddiannus at godi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gymuned leol ac yn ehangach.
- Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbws sy’n adeiladu’n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn bodloni anghenion bron pob un o’r disgyblion.
- Ceir ystod eang o weithgareddau chwaraeon, creadigol a diwylliannol sy’n cefnogi dysgu disgyblion ac yn cyfrannu’n dda at eu datblygiad personol.
- Ceir dull cydlynus o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o’r iaith Gymraeg a’i diwylliant. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg gynnal a datblygu eu medrau iaith.
- Mae’r ysgol yn hyrwyddo cymuned gynhwysol, gefnogol a meithringar yn llwyddiannus, sydd wedi cael effaith fuddiol sylweddol ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae newidiadau diweddar i drefniadau bugeiliol yr ysgol yn cyfrannu’n effeithiol at hyrwyddo lles disgyblion.
- Mae darparu cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn yn gryfder gan yr ysgol. Mae gan ddisgyblion rôl werthfawr ym mywyd a gwaith yr ysgol.
- Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir, gefnogol a phendant sy’n cyfrannu’n dda at wella agweddau allweddol ar waith yr ysgol.
- Mae’r pennaeth a’r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio gyda’i gilydd yn dda ac maent wedi hyrwyddo gweledigaeth glir yn llwyddiannus ar gyfer yr ysgol sy’n seiliedig ar y genhadaeth ‘ysbrydoli, cefnogi a llwyddo.’
- Defnyddir staff cefnogi yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn meysydd arbenigol.
- Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd pleserus a chroesawgar sy’n cael ei gynnal yn dda ac yn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn dda. Mae adnoddau da mewn ardaloedd arbenigol, fel labordai gwyddoniaeth a gweithdai technoleg.

# Gwybodaeth am yr ardal leol

Tref ac Ardal Conwy

Mae Conwy yn dref sy’n gyfoeth o hanes, llawer ohono wedi’i ddiogelu gan y waliau ac adeiledd traddodiadol ei hadeiladau. Wrth ei chraidd mae’r castell cadarn o’r $13^{eg}$ ganrif, y mae ei furiau’n amgáu’r dref ganoloesol hynod hon.

Wedi’i amgylchynu gan gefn gwlad hardd Cymru a than wyliadwriaeth mynyddoedd cadarn Eryri, mae’n lle hyfryd i ymweld ag ef neu i fyw ynddo. Mae’r Cei yn gartref i lawer o gyfleusterau ac yn lle arbennig o drawiadol i ymweld ag ef yn ystod misoedd cynnes yr haf. P’un a yw’n well gennych fwynhau lletygarwch bwytai lleol, mynd ar daith cwch gyffrous o amgylch yr ardal arfordirol neu fynd am dro ar y mynyddoedd cyfagos – mae’r cwbl yn bosibl yn nhref hanesyddol Conwy a’r cyffiniau.

Mae Conwy yn cynnig amrywiaeth o lefydd i fwyta ac yfed. Gellir dod o hyd i fwytai ciniawa coeth, tafarndai traddodiadol a chaffis clyd ledled y dref. Mae yno hefyd nifer o westai a llety gwely a brecwast – llawer ohonynt yn agos iawn at y castell ei hun. Gyda’i hymddangosiad traddodiadol a henaidd, gallech gredu bod y drefn hon yn anodd ei chyrraedd. Mae ychydig dros awr o yrru oddi wrth ddau faes awyr pwysig – Lerpwl a Manceinion – ac mae’n hawdd ei chyrraedd ar drên. Mae hefyd yn werth ymweld â gweddill Sir Conwy, sy’n cynnwys trefi arfordirol trawiadol.

Mae Llandudno wedi cadw ei swyn traddodiadol a dilys. Mae gan y dref wyliau glan môr Fictoraidd hon lawer i’w gynnig i ymwelwyr. Ewch am dro hamddenol ar hyd ei rhodfa, neu i gopa’r Gogarth Fawr lle cewch eich gwobrwyo â golygfeydd syfrdanol o’r mynyddoedd cyfagos a’r trefi arfordirol.

Fe welwch hefyd fod Conwy yn ymfalchïo yn ei diwylliant a’i hanes, ac yn aml yn cynnal nifer o ddigwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn. Bob blwyddyn, fe welwch gyfoeth o wyliau, orielau celf a marchnadoedd lleol, sy’n cael eu cynnal yn bennaf er mwyn cefnogi ac arddangos eu talent a’u cynnyrch lleol.

Os ydych chi’n chwilio am rywle i grwydro sy’n llawn antur ac sydd hefyd wedi llwyddo i gynnal ei gyfoeth hanesyddol o fewn ei waliau a’i adeiladau, mae Conwy yn cynnig hyn oll a mwy i’w hymwelwyr (a’i thrigolion).

(http://www.conwy.com/)







# Hysbyseb Swydd

**Cydlynydd Canolfan Cynhwysiant**

**I ddechrau Mawrth 2025 (neu cyn gynted â phosibl wedi hynny)**

**Mae hon yn swydd lawn amser, barhaol for swydd barhaol : 37 awr yr wythnos, yn ystod tymor ysgol (+10 niwrnod).**

**Cyflog : G07 : £31,883 to £34,091**

**Dyddiad Cau : Dydd Llun 17 Chwefror 2025.**

Yn Aberconwy, mae gennym ddarpariaeth ragorol ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n 'derbyn gofal', sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n dangos ymddygiad heriol, neu sy'n profi pryderon diogelu neu iechyd meddwl. Darperir ar gyfer llawer o'u hangenion yn ein Canolfan Cynhwysiant (Y Ganolfan) yn yr ysgol. Mae'n ganolfan yn cefnogi disgyblion sy'n cael anhawster i gael mynediad i wersi prif ffrwd a hefyd yn gartref I'n canolfan arbenigol ar gyfer awtistiaeth (Tegfan). Mae tîm mawr sy'n cydweithio yn y ganolfan i gynnig cdiogelu a chefnogi dysgwyr, gan ddarparu cwricwlwm deniadol gydag ymagwedd gyfannol at les disgyblion.

Felly, rydym yn ceisio penodi cydlynydd brwdfrydig a llawn cymhelliant i weithio gydag athrawon o fewn y ganolfan ac i arwain nifer sylweddol o staff cefnogi wrth addasu i anghenion disgyblion a rheoli a gweithredu ymyraethau angenrheidiol. Byddant yn gweithio'n agos gydag aelodau o'r tïm arwain, a chydag ADD yr ysgol yn benodol, i leihau gwaharddiadau, mynd I'r afael â phryderon diogelu, gwella ymgysylltiad a datblygu systemau ymddygiad sy'n perfformio'n dda ac yn effeithiol yn yr ysgol. Byddant yn coladu, datblygu a chynnal dogfennaeth ADY ar gyfer disgyblion Y Ganolfan gan ddefnyddio eclipse a systemau'r ysgol ar gyfer rhannu gwybodaeth, cymryd rôl arweiniol mewn adolygiadau disgybl-ganolog a sicrhau darpariaeth priodol ar gyfer disgyblion bregus o fewn y ganolfan. Byddant hefyd yn cymryd rôl arweiniol wrth gefnogi disgyblion PDG gan gynnwys monitro cynnydd a lles disgyblion a chyfrannu at ac adolygu eu CAP mewn cydweithrediad â'r ALl ac asiantaethau allanol.

Yn gyfnewid rydym yn cynnig:

- Ymrwymiad cryf i ddatblygiad proffesiynol;
- Ysgol â dyheadau uchel a chyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth;
- Cyfle i helpu i lywio addysgu a dysgu a'n cwricwlwm amgen;
- Tîm ymroddedig a chefnogol o staff proffesiynol a llywodraethwyr;
- Cysylltiadau cryf ag ysgolion lleol eraill ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chefnogaeth;
- Ysbryd cymunedol cryf;
- Lle bywiog a diddorol i weithio ynddo.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno ag Ysgol Aberconwy, ysgol gyfun gymysg sy'n cynnwys mwy na 1000 o ddisgyblion 11 i 18 oed. Mae campws newydd, eang yr ysgol wedi'i leoli ar lannau prydferth Afon Conwy, yn nhref ganoloesol Conwy, sydd ar arfordir Gogledd Cymru ac yn agos iawn i Barc Cenedlaethol Eryri. Fel ysgol MCP mae safon ein hadnoddau a'n gwaith cynnal a chadw yn eithriadol o dda ac rydym wedi datblygu enw da iawn yn lleol am ansawdd ein gofal bugeiliol yn ogystal â'n llwyddiant academaidd. Bydd niferoedd yr ysgol wedi codi 40% dros y pum mlynedd diwethaf ym mis Medi, ac rydym wedi datblygu canolfannau adnoddau arbenigol i gefnogi plant â dyslecsia, awtistiaeth ac anghenion dysgu eraill.

# Disgrifiad Swydd

**SWYDD:** **Cydlynydd Canolfan Cynhwysiant**

**YSTOD CYFLOG:** **G07**

**DEILIAD SWYDD:**

**YN ATEBOL I:** **Uwch Dîm Arwain**

**PWRPAS Y SWYDD**

Bydd y Cydlynydd Canolfan Cynhwysiant

- Yn ogystal â bod yn rheolwr llinell i CALU yn y Ganolfan, yn gyfrifol am reoli, trefnu a chydlynu Cynorthwywyr Addysgu Hafan/Pontio o ddydd i ddydd, gan addasu i anghenion disgyblion fel y bo'n briodol a thrwy hynny reoli a gweithredu ymyriadau angenrheidiol.
- yn sicrhau bod systemau priodol yn cael eu defnyddio i olrhain, monitro a gwerthuso cynnydd myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yn y Ganolfan Gynhwysiant (Y Ganolfan). Bydd y rôl yn chwarae rhan allweddol mewn lleihau gwaharddiadau, gwella ymgysylltiad a sicrhau datblygiad systemau ymddygiad sy'n perfformio'n dda ac yn effeithiol yn yr ysgol.
- yn nodi carfannau o fyfyrwyr sy'n agored i niwed yn yr ysgol ac yn darparu cymorth priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion gan gynnwys cymorth penodol i oresgyn rhwystrau i ddysgu.
- yn coladu, datblygu a chynnal dogfennaeth ADY ar gyfer disgyblion Y Ganolfan gan ddefnyddio eclipse a systemau'r ysgol ar gyfer rhannu gwybodaeth, cymryd rôl arweiniol mewn adolygiadau disgybl-ganolog a sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion bregus o fewn y ganolfan.
- yn cymryd rôl arweiniol wrth gefnogi disgyblion PDG gan gynnwys monitro cynnydd a lles disgyblion a chyfrannu at ac adolygu eu CAP mewn cydweithrediad â'r ALl ac asiantaethau allanol.
- yn dirprwyo ar gyfer ADD yr ysgol ac yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro a mynd i'r afael â phryderon diogelu.

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

**Cefnogaeth i Fyfyrwyr**

- Mapio darpariaeth yr anghenion a'r ymyraethau i sicrhau'r effaith a'r gwerth gorau posibl am arian.
- Cynnal sesiwn briffio tîm dyddiol i gynllunio a thrafod strategaethau ar gyfer y diwrnod i ddod gan ymateb i unrhyw faterion a all fod wedi codi ar unrhyw adeg benodol.
- Cynnal cyfarfod strategaeth wythnosol gyda CA canolfan cynhwysiant.
- Mynychu a pharatoi adroddiadau ar gyfer cyfarfod cynhwysiant wythnosol gyda'r TA sy'n gyfrifol am gynhwysiant a'r CADY. Defnyddio'r system olrhain ymddygiad briodol i fonitro, gwerthuso ac adolygu cynnydd myfyrwyr.
- Cydgysylltu â PB ynghylch disgyblion unigol a chyflwyno unrhyw gyfeiriadau newydd ganddynt mewn cyfarfod cynhwysiant wythnosol.
- Eirioli dros ddisgyblion Hafan/Pontio a chefnogi disgyblion i ddychwelyd i wersi prif ffrwd trwy gysylltu â staff. Datblygu pwyslais cynyddol ar gynhwysiant.

- Cydlynu a chynllunio ar gyfer dull mwy cyfannol o leoli mewn canolfan cynhwysiant gan gynnwys ymyraethau therapiwtig.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r CADY a'r Arweinydd Cynhwysiant i ddatblygu ethos ysgol gyfan o Gynhwysiant a sicrhau bod myfyrwyr ag ADY a nodwyd yn derbyn darpariaeth briodol.
- Cwblhau proffil Boxall ar gyfer pob disgybl sy'n gweithio yn y ganolfan cynhwysiant – gan ddefnyddio hwn i osod targedau SMART ar gyfer cynnydd.
- Gweithio gyda myfyrwyr a gyfeiriwyd at y Swyddog Lles Addysg ar amrywiaeth o faterion, gan ddarparu amgylchedd anfeirniadol, gofalgar a chyfrinachol iddynt allu gweithio trwy eu problemau a'u hanawsterau.
- Deall "cyfrifoldeb sylfaenol" rhieni i fagu eu plant, a gallu cefnogi rhieni trwy eu helpu i wella'u sgiliau rhianta a hybu presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.
- Derbyn a chydlynu atgyfeiriadau a datgeliadau sy'n ymwneud â DP, gan drefnu camau gweithredu ac adolygu gwasanaethau i blant a theuluoedd.
- Cynnal dogfennaeth a chofnodion cywir, cyfrinachol a chyfredol ar bob achos o ddiogelu ac amddiffyn plant ac adrodd yn ôl pan fo angen.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a'i gyflwyno a chynnal gwybodaeth gyfredol a gweithredol o faterion perthnasol, a rhannu'r wybodaeth hon â staff bugeiliol a staff nad ydynt yn addysgu eraill.
- Cydgysylltu â chydweithwyr ac asiantaethau allanol i gydlynu a monitro'r holl atgyfeiriadau a'r argymhellion o fewn yr ysgol
- Sicrhau bod yr holl fyfyrwyr bregus sy'n destun camdriniaeth, â phresenoldeb gwael neu sydd â phryderon iechyd meddwl yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn sensitif a bod yr holl gamau y bydd angen i Ysgol Aberconwy eu cymryd yn dilyn cyfarfodydd cynllunio ac ymyrryd yn cael eu cyflawni a'u monitro'n llwyddiannus.
- Datblygu a chynnal cydberthnasau gwaith effeithiol ag asiantaethau partner megis y GLlA, yr heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai ac Iechyd yn ogystal â'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, statudol a masnachol eraill a nodwyd yn yr asesiad gwreiddiol, gan hyrwyddo ymagwedd amlasiantaeth i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.
- Cadeirio a chymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd gan gynnwys Cyfarfodydd Gweithwyr Proffesiynol a Chyfarfodydd Cynllunio Addysg.
- Cynnal cyfrinachedd bob amser.
- Mynychu a chymryd rhan mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant a chyfarfodydd Cynllunio ac Adolygu wrth weithio'n agos â chydweithwyr yn y gwasanaethau plant yn ôl yr angen.
- Gweithio gydag athrawon, rhieni ac asiantaethau allanol eraill i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Gofal Iechyd/Addysg Unigol/Ymddygiad/Cefnogaeth/Cynlluniau Mentora/CCB. Datblygiad o CYU ar gyfer disgyblion Hafan a chydlynu PUD cyfredol ar gyfer disgyblion Hafan a Pontio.
- Trefnu a datblygu mentora un-i-un ar gyfer myfyrwyr trallodus neu sy'n tangyflawni, gan roi sylw manwl i adnabod ac atal arferion absenoldeb yn gynnar.
- Asesu a nodi mathau eraill o addysg lle bo'n briodol.
- Darparu mentora academaidd unigol rheolaidd ar gyfer carfan o fyfyrwyr a gyfeiriwyd at SLlA a chysylltu â staff allweddol i fynd i'r afael â materion a nodwyd wrth fentora.
- Asesu anghenion y myfyriwr a defnyddio gwybodaeth a sgiliau arbenigol i gefnogi dysgu a lles myfyrwyr gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u bod yn gwneud cynnydd tuag at eu potensial.
- Cefnogi darpariaeth ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sefydlu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda myfyrwyr, gan weithredu fel model rôl.
- Hwyluso trosglwyddiad effeithiol myfyrwyr ar draws cyfnodau, gan gynnwys cysylltu â theuluoedd ac ysgolion eraill i gasglu gwybodaeth am ymgeiswyr newydd.
- Hyrwyddo integreiddio myfyrwyr sydd wedi bod yn absennol.
- Darparu gwybodaeth a chyngor i alluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau am eu dysgu eu hunain, eu hymddygiad, eu presenoldeb a'u cyfleoedd yn y dyfodol.
- Herio ac ysgogi myfyrwyr, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-barch.

- Darparu adborth i fyfyrwyr mewn perthynas â chynnydd, cyflawniad, ymddygiad, presenoldeb a materion bugeiliol eraill.
- Derbyn a goruchwylio myfyrwyr sydd wedi'u gwahardd o, neu nad ydynt yn gweithio i amserlen arferol.
- Cefnogi myfyrwyr yn gyson wrth gydnabod ac ymateb i'w hanghenion unigol a chymryd camau fel y bo'n briodol i gyfeirio at yr asiantaethau allanol a mewnol priodol.
- Cyflawni rôl fentora a chefnogi staff eraill yn eu rolau mentora.
- Annog myfyrwyr i ryngweithio'n gadarnhaol ag eraill a bod â disgwyliadau uchel ohonynt eu hunain - gan hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant, a gwobrwyo cyflawniadau.

**Cefnogaeth i Athrawon**

- Cefnogi tiwtoriaid dosbarth i gynnal safon uchel o ran gwisg ysgol ac ymddygiad myfyrwyr.
- Darparu cyngor i staff eraill yn yr ysgol mewn perthynas â phryderon lles ac amddiffyn plant.
- Bod yn gyfrifol am gadw a diweddaru cofnodion ar gyfer disgyblion y ganolfan cynhwysiant gan sicrhau bod ffolderi'n gyfredol ac yn hygyrch i bawb sy'n gysylltiedig ar Office 365 a chyfrannu at adolygiadau o systemau/cofnodion yn ôl y galw.
- Helpu i ddatblygu strategaethau rheoli ymddygiad priodol a chymryd rôl arweiniol wrth eu rhoi ar waith yn Hafan ac ar draws y system fugeiliol.
- Sefydlu perthnasoedd adeiladol gyda rhieni/gofalwyr trwy gyfnewid gwybodaeth a hwyluso eu cefnogaeth o bresenoldeb, mynediad a dysgu eu plentyn; a chefnogi cysylltiadau cartref-ysgol a chymunedol trwy drefnu nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill.
- Cydgysylltu ag ysgolion bwydo a chyrff perthnasol eraill i gasglu gwybodaeth am fyfyrwyr.
- Cefnogi mynediad myfyrwyr at ddysgu gan ddefnyddio strategaethau, adnoddau ac ati priodol.
- Monitro a gwerthuso ymatebion a chynnydd myfyrwyr yn erbyn cynlluniau gweithredu.
- Gweithio o fewn polisi disgyblaeth sefydledig i ragweld a rheoli ymddygiad yn adeiladol, gan hyrwyddo hunanreolaeth ac annibyniaeth myfyrwyr.

**Cefnogaeth i'r Ysgol**

- Cydlynu Trosglwyddiadau Rheoledig I mewn ac allan o Aberconwy drwy'r ganolfan cynhwysiant.
- Cydlynu cofnodion ymddygiad / dogfennaeth berthnasol a chwblhau atgyfeiriadau ffurfiol i banel cymedroli'r Sir ar gyfer lleoliad UCD, MT, Dysgu gartref ac ati.
- Cynrychioli'r ysgol yng nghyfarfodydd panel cymedroli Sirol.
- Cadw at bolisïau'r ysgol fel y'u hamlinellir yn y llawlyfr staff. Yn benodol, bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeled, cyfrinachedd a diogelu data a chydymffurfio â hwy, gan adrodd yn ôl am bob pryder i berson priodol.
- Bod yn ymwybodol o wahaniaeth a'i gefnogi, a sicrhau bod gan bob myfyriwr fynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Cyfrannu at ethos/gwaith/nodau cyffredinol yr ysgol.

- Sefydlu perthnasoedd adeiladol a chyfathrebu ag asiantaethau/ gweithwyr proffesiynol eraill mewn cysylltiad â'r athro, i gefnogi cyflawniad, presenoldeb a chynnydd myfyrwyr.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd.
- Mynychu nosweithiau rhieni, nosweithiau opsiynau a digwyddiadau perthnasol eraill.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill, yn ôl yr angen.
- Adnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigedd eich hun a defnyddio'r rhain i gynghori a chefnogi eraill.
- Gweithredu goruchwyliaeth gynlluniedig o fyfyrwyr o fewn a thu allan i oriau ysgol gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol, ac amser cinio o fewn y canllawiau a sefydlwyd gan yr ysgol.
- Goruchwylio myfyrwyr ar ymweliadau, teithiau a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo'r Cydlynydd AP i weithredu polisi a gweithdrefnau Amddiffyn Plant Ysgol Aberconwy.
- Datblygu a chynnal cofrestr o fyfyrwyr sydd 'mewn perygl' neu sydd â chynlluniau amddiffyn plant.

**<u>HAWL I AMRYWIO</u>**

Ni fwriadwyd i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau. Mae Ysgol Aberconwy yn cadw'r hawl, ar ôl ymgynghori'n briodol gyda chi, i amrywio'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau o fewn paramedrau eich graddfa

Bydd yn ofynnol i weithwyr roi gwybodaeth benodol amdanynt eu hunain er mwyn i'r Awdurdod allu cyflawni ei ddyletswyddau, ei hawliau a'i rwymedigaethau fel cyflogwr yn briodol. Bydd yr Awdurdod yn prosesu ac yn rheoli data o'r fath yn bennaf at ddibenion personél, gweinyddol a chyflogres.

# Penodol i'r Unigolyn

| Ffactor | Gofynion | Tystiolaeth | Pwysigrwydd H-Hanfodol D-Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth & Sgiliau** | Addysg hyd at Lefel Gradd. | FfG/C/Gw | H |
| | Addysg o safon dda gyda 5 TGAU neu Gyfwerth. | FfG/Gw | H |
| | Profiad o nodi a mynd i'r afael â phryderon diogelu, gan gynnwys y rhai a godwyd gan eraill. | FfG/C/Gw | H |
| | Profiad o weithio gyda phlant o oedran perthnasol. | FfG/C/G | H |
| | Profiad o weithio gyda myfyrwyr ag anghenion ychwanegol. | FfG/C/G | D |
| | Y gallu i weithio dan bwysau i gwblhau'r hyn y gellir ei gyflawni a chadw at derfynau amser. | FfG/C/G | H |
| | Sgiliau trefnu rhagorol gan gynnwys y gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun a chynllunio gweithgareddau. | FfG/C/G | H |
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar. | FfG/C/G | H |
| | Rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar | FfG/C/Gw | D |
| | Sgiliau rhifedd a llythrennedd da | FfG/Gw | D |
| | Gwybodaeth ymarferol lawn o bolisïau/cod ymarfer perthnasol ac ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol. | FfG/C/G | D |
| | Gwybodaeth ymarferol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a rhaglenni dysgu perthnasol eraill. | FfG/C/G | D |
| **Creadigrwydd & Dyfeisgarwch** | Cymhelliant personol rhagorol a brwdfrydedd dros gwblhau tasgau penodedig. | FfG/C/G | H |
| | Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu a mynd ati i chwilio am gyfleoedd dysgu. | FfG/C/G | H |
| | Y gallu i ymchwilio a threfnu gwybodaeth i'w chynnwys mewn dogfennau ac adroddiadau. | FfG/C/G | H |
| | Y gallu i gynllunio camau gweithredu effeithiol ar gyfer myfyrwyr sydd mewn perygl o dangyflawni. | FfG/C/G | H |
| | Dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad plant a phrosesau dysgu ac, yn benodol, rhwystrau i ddysgu. | FfG/C/G | D |
| **Cysylltiadau & Perthnasau** | Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda staff. | C/G | H |
| | Y gallu i integreiddio a gweithio'n effeithiol o fewn amgylchedd tîm gan ddeall rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'ch safle chi o fewn y rhain. | C/G | H |
| | Y gallu i berthnasu'n dda â phlant | C/G | H |
| | Dealltwriaeth lawn o'r ystod o wasanaethau/darparwyr cefnogaeth a'r gallu i weithio gydag asiantaethau o'r fath | FfG/G | D |
| **Penderfyniadau/ Argymhellion** | Y gallu i wneud penderfyniadau yn annibynnol o fewn fframwaith gwrthrychol cytunedig. | C/G | H |
| **Adnoddau** | Y gallu i reoli adnoddau yn effeithlon | C/G | H |
| **Gofynion Corfforol** | Y gallu i gyflawni dyletswyddau dyddiol o fewn ac o amgylch amgylchedd yr ysgol – gan gynnwys dyletswyddau egwyl/cinio ar iard yr ysgol ac yn ffreutur yr ysgol. | FfG/C | H |

FfG: Ffurflen Gais    C: Cyfweliad    G: Geirda    Gw: Gwiriad

# Gweithdrefnau Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac rydym yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Rydym yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Yng ngoleuni hyn, hoffem dynnu eich sylw at y materion canlynol:

1. Gwneir pob penodiad yn amodol ar y canlynol:
    a. Gwiriadau GDG manwl;
    b. Gwiriadau o statws proffesiynol (CGA; QTS ayyb.)
    c. Cadarnhad o gymwysterau proffesiynol;
    d. Derbyn geirdaon cryf (os na chawsant eu derbyn erbyn y cyfweliad);
    e. Cliriad meddygol

2. Rydym ond yn derbyn ceisiadau a gwblhawyd ar ffurflen gais Conwy gyda llythyr eglurhaol. Os gwelwch yn dda, peidiwch â gyrru CV neu dystebau agored. Ceir mwy o fanylion am gynnwys ceisiadau yn y pecyn hwn isod.

3. Sicrhewch fod y ffurflen gais wedi'i llenwi'n llawn. Yn benodol, rhaid i chi sicrhau bod hanes gwaith llawn yn cael ei ddarparu a bod unrhyw fylchau yn eich cyflogaeth yn cael eu hesbonio'n llawn.

4. Rhaid i'r canolwyr y cyfeirir atynt yn eich ffurflen gais gynnwys eich cyflogwr o'r tro diwethaf y buoch yn gweithio gyda phlant. Os oedd eich cyflogaeth ddiwethaf mewn ysgol, byddem yn disgwyl geirda gan y Pennaeth a/neu'r Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol

5. Wrth geisio geirda, byddwn yn gofyn am wybodaeth am eich addasrwydd i weithio gyda phlant.

6. Os ydych ar y rhestr fer, bydd unrhyw anghysonderau yn eich cais yn cael eu trafod gyda chi yn y cyfweliad.

7. Mae Conwy wedi ymrwymo i ddiogelu plant, a grwpiau diamddiffyn. Disgwylir i holl aelodau staff y Cyngor fod yn ymwybodol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'u cyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryderon yn y dull a'r amserlen briodol.

*Rydym yn eich annog i roi sylw manwl i'r materion hyn fel na chaiff eich cais ei ddiystyru yn ddiangen.*

# Gweithdrefnau Gwneud Cais

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y swydd hon, dylech lenwi'r ffurflen gais, gan roi enwau a chyfeiriadau dau ganolwr.

Sylwer y dylai adran 12 ar y ffurflen (Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais) y gellir ei llenwi ar ddalen ar wahân os yw'n well gennych, gynnwys y wybodaeth ganlynol:

a. Amlinelliad byw o'r hyn yr ydych wedi ei gyflawni yn eich swydd bresennol
b. Datganiad am pam rydych chi eisiau'r swydd hon.
c. Mynegiad o'r cryfderau a'r arbenigedd y gallech eu cynnig i'r ysgol.

Dylai pob pwynt fynd i'r afael â'r manylion yn y fanyleb person a phwyntiau eraill a wneir yn y pecyn gwybodaeth hwn.

Gofynnir yn garedig i ymgeiswyr beidio â chyflwyno CV yn lle ffurflen gais. Gellir atodi dalennau ychwanegol wrth y ffurflen gais os nad oes digon o le.

Dylid dychwelyd ceisiadau wedi'u cwblhau at Mr Ian Gerrard (Pennaeth) d/o Lynn Jones, i gyrraedd **erbyn canol dydd fan bellaf ar Dydd Llun Chwefror 17eg 2025.**

Sicrhewch eich bod yn rhoi'r tâl postio cywir ar yr amlen gan y gallai hyn olygu na fydd eich cais yn cael ei ystyried oherwydd ei fod wedi cyrraedd yn hwyr. Noder y byddwn ond yn ystyried ceisiadau a gyflwynir ar ffurflen gais Conwy.

Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **Dydd Llun Chwefror 17eg.** Os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn pythefnos i'r dyddiad hwn, yn anffodus mae'n rhaid i chi dybio bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn, ac os felly, hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i chi am eich amser a'ch diddordeb yn yr ysgol.

Sylwer ein bod yn hapus i drefnu ymweliadau anffurfiol ar gyfer darpar ymgeiswyr cyn i'r rhestr fer gael ei llunio, hefyd os ydych am gael trafodaeth anffurfiol am y swydd cyn gwneud cais, neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch â Lynn Jones, Cynorthwyydd Personol y Pennaeth.

**Ffôn: 01492 593243**
E-bost: lynn.jones@aberconwy.conwy.sch.uk